Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Ebrill 2023 yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h

Agenda

1. **Presennol:**
    a. **Cyfethol**
2. **Ymddiheuriadau:**
3. **Datgan buddiant**
4. **Derbyn Cofnodion 9fed o Fawrth**
5. **Materion yn codi**
6. **Materion ariannol**
    i. **Mantolen ariannol**
    ii. **Archwylio Allannol**
    iii. **Cofnodion cyfarfodydd IBC 29/03/2023**
7. **Cynllunio**

8. **Materion y Clerc**
    - Ganolfan newydd
        - Unrhyw ddiweddariad
    - Ganolfan bresennol
        - Diweddraiad o'r adnewyddu/uwchraddio
    - Capel y Fynwent
        - Gwaith Llorio
        - Cynllunio'r Llawr
    - Cysgodfannau Bws
        - Dosbarthu llythyrau i'r Trigolion agosaf
    - Cynllun Hyfforddiant
        - Ffurflenni Cynllun Dysgu Cynghorwyr
            - Disgwyl 3 ffurflen asesu
    - Adroddiad Adran 6 Bioamrywiaeth
    - Di-gomisynnu Septic Tanc Glasinfryn
    - Cais Teulu Florence i osod Mainc er cof am Mrs P Florence
9. Materion y Cynghorwyr
    - Cyng J Lewis
        - Torri Gwair ar 'y Green': PP yn dymuno cael o leiaf un toriad o'r parth i gyd gan gynnwys y llecyn blodau' gwyllt.
        - Llwybr yn mynd heibio'r 'Lodge': Byddai PP yn croesawu pe byddai Cyngor Pentir yn mabwysiadu gofal am y llwybr.
        - Bwrdd dehongli: PP yn croesawu'r syniad. (A oes angen i hyn fynd onflaen y cyngor llawn cyn contractio hwylusydd?
        - Y capel: LE a JL wedi trafod y gwelliannau diweddar. PP yn awyddus cael ymweliad wedi i'r gwaith ddod i ben.

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 9fed o Fawrth 2023 gynhalwyd yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h

1. **Presennol:** Cyng D W Jones– Cadeirydd. Cyng L A James; Cyng D Jones-Morris; Cyng J Lewis, Cyng J Pierce, Cyng I Ellis,; Cyng C W Owen,
   a'r Clerc E Jones

2. **Ymddiheuriadau** Cyng M Lynch; Cyng M Baines,; Cyng B Jones, Cyng A Joyce; Cyng Dafydd Meurig

3. Datgan buddiant Cynghorwyr L A James, yn datgan buddiant ar 8 gan eu bod yn aelodau o Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan bresennol

4. Derbyn Cofnodion 9fed o Chwefror
   Cynnigwyd eu bod yn gofnodion cywir gan y Cyng L A James ag eilwyd gan y Cyng C W Owen

5. Materion yn codi
   Llwybr yr hen ffordd heibio'r Lodge Pentir.
   Y Clerc wedi derbyn cadarnhad mae eiddo Cyngor Gwynedd ydi'r hen ffordd a ddim yn eiddo preifat Cyngor Gwynedd felly sy'n gyfrifol am ei chynnal a'i chadw fel unrhyw 'ffordd gyhoeddus' arall
   Holwyd os oedd yn bosib i gymeryd cymeryd y cyfrifoldeb hwnnw drosodd **Clerc i wneud ymholiad**

6. Materion ariannol
   - Mantolen ariannol
     'Roedd y fantolen ariannol wedi ei rhannu hefo pawb yn dangos £35,632.00 yn y cyfrif cyfredol a £45,125.79 yn y cyfrif cadw
   - Archwylio Allannol
     Y Clerc wedi bod yn holi am adroddiad derfynnol 2021-22 ond heb dderbyn ymateb arwahan i dderbyn anfoneb am y ddwy flynedd flaenorol
     Clerc i gysylltu hefo Unllais
     - Costau archwylio 2019-20 a 20-21
       Cost 2019-20 yn **£360.00** tra fod 2020-21 yn **£320.00**
   - Cofnodion cyfarfodydd IBC 22/02/2023
     Dosbarthwyd cofnodion yr Is-bwyllgor Cyllid olaf

7. **Cynllunio**
   C23/0153/25/LL Vaynol Arms, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4EA
   Newid defnydd llawr gwaelod o dafarn i unedau gwyliau gosod
   Ymddengys fel mae ail gyflwyno y cais gwreiddiol oedd hwn arwahan i lythyr o gefnogaeth oedd ddim ynddo'i hun yn reswm cynllunio
   Cytunwyd i wrthwynebu yn unol a'r gwrthwynebiad gwreiddiol fod gormodedd o unedau gwyliau eisioes yn yr ardal o'i gymharu a lleoliadau cymdeithasu sydd yn hanesyddol wedi bod yn y lleoliad dan sylw

8. **Materion y Clerc**
   - Hysbysebu Sedd Wag / Cyfethol
     'Roedd hysbyseb o'r sedd wag eisioes wedi bod ar y Wefan a'r cyfnod hwnnw wedi dod i

ben Byddwn felly yn hoili am enwau i'w cyfethol gyda'r gobaith o gyfethol yng nghyfarfod Ebrill

- Ganolfan newydd
  - Unrhyw ddiweddariad

Dim symuniad i fedru symud i mewn ond sawl peth wedi ag yn digwydd ers ein cyfarfod dwaetha ag yn achosi pryder

- Dim ymateb wedi ei dderbyn o adran cyfreithwyr Gwynedd i ebost ein cyfreithiwr
- Capasiti yr ysgol wedi ei gymeradwyo mewn cyfarfod llywodraethwyrt er nad oedd y prosiect wedi ei gwblhau i gyfarch angen parcio ysgol o'i maint
- Ceir staff a rheini yn parcio ar faes parcio'r ganolfan bresennol sydd ar gyfer defnyddwyr y Ganolfan yn unig
- Plant a rhieni yn cerdded rhwng ceir heb unrhyw fath o warchodiad o'r ysgol
- Yswiriant y Pwyllgor Rheoli yn annigonnol tae rhywun yn cael damwain ar dir y Ganolfan
- Staff a rhieni yn defnyddio y maes parcio i gael mynediad i Ysgol y Faenol
- Cwmni garddio/tacluso wedi dweud na wnawn wneud unrhyw waith i dacluso y maes-parcio os bydd ceir yna ag wedi rhoi dyddiad i LAJ

  Cyng LAJ am ysgrifennu i'r Ysgol

- Ganolfan bresennol
  - Costau adnewyddu/uwchraddio

Mae cyflwr y ganolfan yn annerbynniol a dweud y lleiaf oherwydd diffyg gwaith cynnal a chadw dros y 3 blynedd dwaetha. Mae ei chyflwr mor sal na ellir ei marchnata ar gyfer defnyddwyr newydd ac mae'n afresymol disgwyl i'r defnyddwyr presennol dalu am ei llogi Mae'r is-bwyllgor cyllid wedi argymell bod y Cyngor yn gwario arian i wneud y lleoliad yn saff a diogel

Cafodd yr argymhelliad ei gymeradwyo

Cytunwyd i

- Adnewyddu y toiledau
- Adnewyddu'r lloriau sy'n beryg
- Paentio
- Clirio a thwtio'r Maes-Parcio
- Arwyddion i'r Ganolfan a ledled y Cyngor
- Prynu offer cegin a man-offer fydd posib eu symud i'r ganolfan newydd pan ddaw hynny
- Trydannol – goleuadau'n ddiffygiol ag angen Pat testio

- Capel y Fynwent
  - Gwaith Saer
    - Paentio

  Y paentio wedi ei wneud fel oedd y sgaffold yn cael ei ostwng
  - Gwaith trydannol
    - Amcanbris goleuadau newydd

  Derbyn yr amcanbris am oleuadau LED a gobeithio eu gosod tra bod y sgaffold yn dal yna
- Cysgodfannau Bws
  - Cyngor gwynedd - dim ymateb pellach ynglyn a'r adnewyddu na symud
  - Dosbarthu llythyrau i'r Trigolion agosaf Llythyrau wedi eu dosbarthu i'r tai agosafr

- Cynllun Hyfforddiant
    - Ffurflenni Cynllun Dysgu Cynghorwyr
        - Pawb bellach wedi cyflwyno a gallu symud ymlaen felly i drefnu cynllun
- Cais y brynu beddi yn y Fynwent newydd

Cais wedi ei dderbyn gan un ymgymerwr yn holi os oedd y Cyngor yn fodlon gwerthu plotiau.
Cytunwyd flynyddoedd yn ol, oherwydd prinder safleoedd, i beidio gwerthu.
Mae engreifftiau yn yn bodoli yn yr hen fynwent lle bod plot wedi ei brynu ers degawdau a dim sicrwydd os yw'r prynwyr yn dal yn fyw
Cytunwyd i beidio gwerthu plotiau

- Adroddiad Adran 6 Bioamrywiaeth

E-bost wedi ei dderbyn fod angen adroddiad Bioamrywiaeth fel dilyniant i'r adroddiad ddarparwyd sawl blwyddyn yn olac i weld/adnabod sut mae'r cyngor yn ymateb i geisiadau cynllunio yn ogystal a sefydlu cynefinoedd ei hun

- Prisiau Torri'r Fynwent - D W Lewis

E-bost wedi ei dderbyn gan D W lewis yn datgan y bydd yn sgil cynnydd costau ynni/thanwydd bydd cynnydd o 10% yn ei gostau at 2023-24.
Cytunwyd i'r cais o gofio nad yw ei gostau wedi codi ers blynyddoedd lawer ag ansawdd ei waith yn ganmoladwy iawn

- Costau Blynyddol y Clerc

Cyflwynodd y Clerc ei fantolen costau blynyddol am ei gostau trafaelio a'i gostau ffon oedd eleni yn £554.39c
Diolchwyd i'r Clerc am ei waith Derbynwyd y cais ac argymhellwyd ei dalu

9. Materion y Cynghorwyr
   Dim wedi anfon ymlaen

Daeth y cyfarfod i ben 8.50